# Heddwch

cylchgrawn CND Cymru

Haf 1994
25c


## *FFYNONELLAU YMBELYDREDD*

*Cyhoeddwyd y cynllun clawr hwn fel taflen ymgyrchu hefyd, yn cynnwys mwy o fanylion a ffurflen aelodaeth. Fe'i seiliwyd ar daflen Bwrdd Croeso Cymru, 'Cymru - Gwlad Ysbrydoliaeth'.*

### *CYNNYRCH CARTREF*

**Atomfa'r Wylfa**

**Rhwydwaith rheilffyrdd y Gogledd - yn cludo gwastraff niwclear**

**Atomfa Trawsfynydd**

**AWE Llanishen, Caerdydd**

### *MEWNFORIADAU*

**Alldafliad Tsiernobyl**

**Sellafield, nawr yn cynnwys THORP i lygru Môr Iwerddon**


**Atomfeydd yn Hinkley Point, Gwlad yr Haf; Oldbury a Berkeley, Swydd Caerloyw**

### *ARBENIGAETHAU MILWROL*

**Hediadau ymarfer bomio niwclear isel gan y Llu Awyr**

**Maes arbrofi taflegrau Aberporth**

**Angorfa Z, Caerdydd - doc i longau tanfor niwclear**




## *Hefyd yn y rhifyn hwn ...*

***Datgomisiynu:*** *John Cox ar Drawsfynydd - y dadlau a'r dewisiadau*

***Anghyfiawnder troseddol:*** *Howard Johns yn asesu effaith y Bil Cyfiawnder Troseddol ar ymgyrchoedd heddwch*

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

Produced by Pia 0222 222782, Printed by Fingerprints (TU) 0222 482582

*Gan David Morris ASE, Cadeirydd CND Cymru*



## Dear Friend

**Roedd llawer ohonom yn gobeithio ac yn credu y medrai diwedd y drefn Stalinistaidd Unbennaethol yn Nwyrain Ewrop a'r hen Undeb Sofietaidd a ddinistriodd un uwch floc pŵer fod wedi sefydlu amodau ar gyfer gwneud y byd yn lle mwy diogel a thecach.**

**Yn anffodus, mae profiad yr ychydig flynyddoedd ddiwethaf wedi gwneud i'r rhan fwyaf o bobl deimlo'n llai diogel, llai sicr ac i weld y byd fel lle mwy peryglus fyth i fyw ynddo.**

**Mae arfau niwcliar gan fwy o wledydd nag erioed o'r blaen. Gyda'r cynnydd enfawr mewn troseddau yn Rwsia a'r gwladwriaethau annibynnol newydd , wynebwn bosibilrwydd go iawn y bydd y Maffia yn sicrhau deunydd ac arbenigedd niwcliar a marchnata ei botensial ar gyfer difodiant yn union yr un modd ag y maent yn ecsploetio dulliau dinistriad personol ar hyn o bryd.**

**Yn yr amgylchiadau hyn, mae rhoi diwedd ar ehangu arfau niwcliar ac arfau eraill yn bwysicach nac erioed a daw adolygu'r Cytuniad Dim Amlhau y flwyddyn nesaf o bwys hanfodol i ddyfodol y blaned.**

**Mae agwedd bresennol Prydain, Ffrainc a'r UDA yn anfoesol a pheryglus. Nid ydynt yn barod i roi'r gorau i'w statws niwcliar ac yn hawlio ei bod yn hanfodol ar gyfer diogelwch eu dinasyddion yn y dyfodol tra yr un pryd yn mynnu na ellir ymdied gwybodaeth niwclear mewn gwledydd eraill.**

**Mae sail dros ddehongli hyn fel golygu 'Rydym yn wyn ein croen, felly yn fwy gwâr a doeth. Dim ond ni sy'n gymwys i fod yng ngofal y dechnoleg hon'.**

**Daw'r perygl mwyaf i heddwch y byd o'r rhai sy'n dangos y math yma o draheustra hiliol.**

**Os ydym i greu'r awyrgylch o ymddiriedaeth sydd yn angenrheidiol i ailnegydu y Cytuniad Dim Amlhau 1995, ni fedrai fod symudiad gwell gan y pwerau niwcliar presennol nag i roi'r gorau i'w harfau niwclear eu hunain. Ar yr un pryd dylent hwy a chenhedloedd eraill sy'n cynhyrchu arfau ddod i gytundeb i orffen gwerthu arfau i wledydd tlawd yn y trydydd byd – arfer sydd wedi dargyfeirio adnoddau enfawr o'r frwydr yn erbyn newyn a chlefyd tuag at ryfeloedd anfoesol, gorthrwm a chynnen.**

**CND yw'n mudiad heddwch blaenllaw. Ein gwaith yw perswadio arweinyddion gwleidyddol a'r cyhoedd i roi'r byd ar lwybr ymddiriedaeth a hyder un yn y llall.**

# Ar lan y môr

## Cyfarfod Blynyddol CND Cymru

Gwahoddodd rhifyn diwethaf Heddwch chi oll i'n cyfarfod yn Aberystwyth. Fe gollodd y rhai ohonoch na fu yno ddiwrnod gwerth chweil gyda phobl hoff gytûn.

Trafodwyd y busnes arferol o 'ethol' swyddogion yn gyflym. Aethpwyd ymlaen i sôn am faterion pwysig ymgyrchu. Siaradodd Janet Bloomfield, cadeirydd CND Prydain, am ymgyrchu gyda phwyslais arbennig ar 'Byd Di-Niwclear neu Arfau Niwclear i Bawb'. Arweiniodd Pippa James a Howard John drafodaeth ar oblygiadau'r Mesur Cyfiawnder Troseddol. Mae'r Mesur hwn i ddod yn gyfraith y mis hwn a bydd yn gwneud llawer o'r gweithgareddau sy'n hanfodol i ni gyrraedd y cyhoedd gyda'n neges yn droseddau. Mae llawer o lefaryddion yr heddlu wedi dweud y bydd yn amhosibl gweithredu'r mesur. Mae'n rhaid i ni brofi i'r Llywodraeth na ellir ac na ddylid ei weithredu, ac y byddwn yn parhau i ymgyrchu.

Treuliwyd awr hapus yn y prynhawn ar Bromenâd gwyntog Aberystwyth. Buom yn dosbarthu taflenni yn amlinellu peryglon pelydredd ym Môr Iwerddon a gynyddir gan 900% gyda'r allyriant ychwanegol o THORP.

Y neges o'r cyfarfod yw fod ymgyrchu dros fyd di-niwclear heddychlon o bwys tragwyddol. Gweithredwch yn awr cyn iddi fod yn rhy hwyr. Er mwyn ein plant.

*Rod Stallard*




Etholwyd y swyddogion canlynol yng Nghyfarfod Blynyddol CND Cymru a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 1994 yn Llanbadarn, Aberystwyth:

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | David Morris ASE |
| **Is Gadeiryddion** | Dave Andrews, Ian Campbell, Olwen Davies, Ray Davies, Rod Stallard |
| **Trysorydd** | Jean Bryant. |

Hoffem ddiolch i holl swyddogion, gweithwyr ac aelodau CND Cymru am eu cefnogaeth, amser, egni, ymroddiad a chyfeillgarwch dros y deng mlynedd ddiwethaf. Hefyd llongyfarchiadau i Dave, Cilla a Sam Andrews ar enedigaeth Kim bach, ar 14 Mehefin – gan ddymuno dyfodol di-niwclear iddo!

Cyflwynwyd y cynnig canlynol gan CND Llandrindod. Oherwydd pwysau amser cytunwyd cyflwyno'r cynnig i'r Cyngor ar 17 Medi. Cysylltwch â Jill Stallard os oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig, a/neu dewch i'r Cyngor a gynhelir am 11.00 am yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr, Temple St., Llandrindod, Powys.

Cynnig i Gyfarfod Blynyddol CND Cymru gan CND Llandrindod a'r Ardal

Gyda'r adroddiadau diweddar am ollwng nwy niwclear o Orsaf Bŵer Niwclear yr Wylfa; o natur yr allyriant a allai achosi cancr o'r ddau losgydd y medrid eu hawdurdodi yn Nhrawsfynydd; y ffrwydriad cemegol yn y gwaith ailbrosesu niwclear yn Sellafield; a'r bygythiad byth-barhaol o ymdoddiad arall yn Chernobyl – mae CND Cymru yn lansio ymgyrch i hysbysu'r cyhoedd am beryglon pŵer niwcliar i ddynoliaeth a'r amgylchedd, a diogelwch pŵer gwynt ar gyfer cynhyrchu trydan.

(Cyflwynodd CND Llandrindod y cynnig hwn oherwydd y brotest gyhoeddus gref am ffermydd gwynt. Maent yn pryderu mai ychydig iawn o gymhariaeth a wnaed rhwng effeithiau amgylcheddol ffermydd gwynt a gorsafoedd pŵer niwcliar, ac yn teimlo ei bod yn bryd i CND Cymru wrthbwyso'r protestiadau am ffermydd gwynt gyda'r ffeithiau am bŵer niwclear).

# Newyddion ymgyrch

## Hedfan Isel Milwrol

Cofiwch – os yw hedfan isel milwrol yn amharu arnoch, CWYNWCH i: Cwynion Hedfan Isel, MOD (D.5c.8c), Prif Adeilad, Whitehall, Llundain SW1A 2HB, neu ffoniwch – (071) 218 6020.

Mae gan Gymru hefyd ei Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus RAF ei hunan – Brian Sidebotham, ystafell 2-21, Tŷ Dolanog Newydd, Ffordd Hafren, Y Trallwm, Powys SY21 7DA (0938) 556363.

Pan yn cwyno, gofynnwch i'ch sylwadau gael eu rhoi ar log, gan na fyddai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fawr o dro yn cyhoeddi bod nifer cwynion yn gostwng. Gofynnwch i'r Weinyddiaeth pam fod heddwch a diogelwch y rhai ohonom ar y ddaear yn cael ei aberthu mor rhwydd i ámddiffyn' diddordebau economaidd Prydain. Mae'r RAF ar hyn o bryd yn dweud pa mor allweddol oedd y bygythiadau o fomio 'y Serbiaid' i ddiwedd yr ymladd yn Bosnia. Bydd unrhyw un sy'n darllen y papur newydd hwn yn gwybod bod y bomiau mewn gwirionedd wedi bod yn rhwystr i'r broses heddwch.

## Gollwng cyhuddiad yn erbyn Gweithredydd Gwrth-Niwclear

Mae Rod Stallard, Is Gadeirydd CND Cymru, a arestiwyd a'i gyhuddo o ddifrod troseddol mewn gwrthdystiad y tu allan i Bencadlys Trydan Niwclear yng Nghaerloyw ar Ddiwrnod Chernobyl, 26ain Ebrill 1994, wedi condemnio'r penderfyniad i ollwng yr holl gyhuddiadau yn ei erbyn fel 'ymgais i arbed wyneb'. Roedd ei achos i fod i ddod gerbron Llys Ynadon Caerloyw ar 27ain Mehefin ond cafodd Rod rybudd na fyddid yn symud ymlaen ar sail 'Tŷstiolaeth annigonol' ar l5 Mehefin. Gwnaed y penderfyniad er gwaethaf datganiadau i'r heddlu gan ddau lygad-dyst a bodolaeth fideo diogelwch o'r weithred honedig. A all fod y byddai cyhoeddusrwydd yn amlygu peryglon pwer niwcliar yn ei gwneud yn anneniadol i ddarpar fuddsoddwyr Trydan Niwclear ccc?

## Gorsaf Bŵer Niwclear y Wylfa

Bu damwain arall eto yn y Wylfa ar Fai 8. Roedd y digwyddiad hwn yn ymwneud â pheiriant gwasanaethu adweithydd. Cawsom ein 'sicrhau' na chafodd dim byd anawdurdodedig ei ollwng. Mewn cyfarfod diweddar o'r pwyllgor cyswllt lleol cyhoeddwyd bod £20 miliwn wedi ei wario i ddod â'r Wylfa i fyny i'r safonau diweddaraf, ond bod mwy o waith i'w wneud, yn arbennig mewn gwelliannau i gylchredau pwysedd yr adweithyddion, systemau cau i lawr ac oeri a gwrthiant i beryglon megis tân, daeargrynfeydd a rhyddhau nwyon poeth. Dywedodd llefarydd dros Trydan Niwclear hefyd nad yw adeiladu PWR newydd yn y Wylfa 'wedi ei wrthod'.

## Trident

Gohirwyd tanio arbrofol y Trident Prydeinig cyntaf o saethyn Trident II Americanaidd yn Cape Canaveral ar 26 Mai ddwywaith gan long Greenpeace, Solo. Roedd cwch Greenpeace a hofrennydd uwchben y llong danfor Brydeinig HMS Vanguard mewn dyfroedd rhyngwladol oddiar arfordir Fflorida ar unwaith. Mae'r UDA yn rhoi cynlluniau, offer a chyfleusterau profi i Brydain ar yr un pryd ac y maent yn pregethu dim amlhau i Ogledd Korea, Israel, India a Pakistan!

## THORP

Mae damwain gyda asid nitrig wedi dinistrio cymaint o offer yn y gwaith fel na all eto weithredu fel y'i bwriadwyd. Mae 2,000 o weithwyr THORP a fu'n dathlu'r cyhoeddiad i symud ymlaen â'r gwaith, yn chwerw iawn am y cyhoeddiad y collir 2,000 swydd. Dywedodd ficer o Workington: ár un llaw BNFL yw'r prif gyflogydd ond ar yr arall ef yw'r prif rwystr i ddod â mwy o swyddi i'r ardal'). (THORP yn debyg o beri marwolaeth 2,000 o bobl yn y byd mewn 20 mlynedd oherwydd allyrru mwy o belydredd i'r amgylchedd. (Ffigurau'r Llywodraeth)).

## Adolygiad Niwcliar

Cyhoeddwyd y cylch gwaith o'r diwedd. Bydd ar ffurf dau adolygiad – un gan yr Adran Fasnach a Diwydiant, a fydd yn canolbwyntio ar ymarferoldeb preifateiddio a hyfywdra gorsafoedd pŵer newydd (megis Sizewell C), rhwymedigaethau gwastraff a rhwymedigaethau dadgomisiynu. Bydd y llall, gan yr Adran Amgyclhedd, yn cynnwys materion iechyd ac amgylchedd mewn rheolaeth a gwaredu gwastraff. Gwahoddir sylwadau a thystiolaeth: anfonwch erbyn 30 Medi i: Michael Morgan, Ystafell 2.3.6, DT1, 1 Palace St., llundain SW1 5HE. Mwy o wybodaeth gan Dave Andrews (gweler rhestr cyswllt).

## Trawsfynydd

Fel yr awn i'r wasg, mae'r llosgyddion a adroddwyd yn yr Heddwch blaenorol yn dal i ddisgwyl am ganiatâd terfynol y cynghorau lleol. Mae amser yn dal i fod i chi leisio'ch pryder am losgi gwastraff radioactif. Ysgrifennwch at: Yr Adran Diwydiant a Masnach/The Department of Trade and Industry, ElectriciTŷ Division, 1, Palace St., Llundain SW1E 5HE. Dadgomisiynu: cariwyd 7 o fflasgiau tanwydd disbyddedig i Sellafield ar draws Lloegr a Cymru ar reilffordd. Mae Trydan Niwclear hefyd wedi adrodd bod 'symiau bach' o ddeunydd radioactif ar y rheilfan yn Nhrawsfynydd. Ymddengys nad yw hyn yn beryglus o gwbl ond iddo gael ei symud i 'liniaru unrhyw bryderon'. Efallai ei fod wedi ei symud o'r rheilfan, ond gyda beth, i lle a chan bwy? A yw'ch pryderon chi wedi eu lliniaru?

# Cerdded a Siarad am Fôr Iwerddon Di-Niwclear

Nid yn unig mae gan Fôr Iwerddon y record amheus o fod y môr mwyaf radioactif yn y byd, mae'n edrych fel y bydd yn cynyddu ei radioactifedd gan o leiaf 900% gyda dechrau gwaith yn THORP.

Mae'r cynnudd mewn cludo deunydd niwclear ar long i Sellafield a llongau tanfor niwclear yn cario arfau niwcliar yn y moroedd o amgylch Cymru yn ychwanegu at berygl enbyd damwain na fedrai bywyd ei oroesi.

Mae Julian Goodfellow, aelod o CND Cymru, yn cerdded o Drefdraeth i Aberystwyth i amlygu peryglon môr Iwerddon radioactif, ac i godi arian ar gyfer CND Cymru. Dyma lle y dewch CHI i mewn.

Os gwelwch yn dda:

- Noddwch Julian neu anfon cyfraniad drwy ddychwelyd y ffurflen amgaedig i Jill Stallard cyn gynted ag sy'n bosibl (gweler y rhestr cyswllt). Gofynnwch i'ch ffrindiau a'ch teulu ei noddi hefyd.
- Dewch i'n cynorthwyo i ddosbarthu taflenni ac ymgyrchu ym mhob man aros ar y daith, neu dewch draw i gael sgwrs.

**Dyma'r dyddiadur:**

**Awst 19eg** – Trefdraeth i Aberteifi
**Awst 20fed** – Aberteifi i'r Cei Newydd
**Awst 21ain** – Cei Newydd – Aberaeron
**Awst 22ain** – Aberaeron i Aberystwyth

- *Am unrhyw wybodaeth bellach, ymholiadau neu i gynnig gymorth, cysylltwch â Rod Stallard (gweler rhestr cyswllt).*



# Dim amlhau arfau niwclear

## Agenda ymgyrchu CND 1994-95

Cynhelir cynhadledd adolygu'r Cytuniad Dim Amlhau Niwclear ym Mis Ebrill 1995. Am y tro cyntaf mewn 25 mlynedd bydd gan y gymuned ryngwladol gyfle i adeiladu trefn newydd dim-amlhau a diarfogi niwclear.

Ar hyn o bryd polisi'r Gwladwriaethau Arfau Niwclear, yn cynnwys llywodraeth Prydain a'r Blaid Lafur, yw esTŷniad amhenodol i'r Cytuniad Dim Amlhau.

Mae CND yn gwrthwynebu hyn am dri rheswym:

1. Byddai esTŷniad amhenodol yn gadael y Gwladwriaethau Arfau Niwclear heb unrhyw bwysau i ddiarfogi.
2. Byddai'n rhewi rhaniad presennol y byd i'r rhai sydd gan arfau niwcliar a'r rhai heb ddim a fydd yn sicrhau na fydd byth ymlyniad byd-eang, na pharch at y Cytuniad Dim Amlhau presennol.
3. Mae ymesTŷniad amhenodol yn derm sy'n gwrthddweud ei hunan. Golygid bob amser i'r Cytuniad gael ei ddisodli gan Gytuniad diarfogi cyffredinol a chyflawn dan Erthygl VI.

Credwn mai dim ond am 10 mlynedd y dylid ymesTŷn y Cytuniad a defnyddio'r amser hwnnw i negydu gwaharddiad byd-eang ar arfau niwclear.

Y cynsail gwleidyddol fyddai Confensiwn Arfau Cemegol 1993 sydd, fel y cytunodd Yr Athro Joseph Rotblat, enillydd Gwobr Heddwch Albert Eistein, yn anos ei wireddu mewn llawer ffordd na gwaharddiad arfau niwclear.

'Glasbrint ar gyfer Byd heb Arfau Niwclear' yw cyhoeddiad diweddaraf CND (ar gael yn awr) sy'n gosod nifer o gamau interim y medrid eu cymryd yn ystod y cyfnod ehangu. Byddai'r rhain oll yn gymorth i adeiladu'r hinsawdd gwleidyddol rhyngwladol sy'n gefnogol i gytuniad byd-eang o'r fath gan mai'r dewis arall fyddai bod Cynhadledd Adolgyu 1995 yn chwalu neu bod aelodau'n cael eu gorfodi i bleidleisio ar ymesTŷniad amhenodol oherwydd diffyg consensws. Ni pherchid y Cytuniad Dim Amlhau ac ni cheid ateb i broblem gwladwriaethau nad yw'n dymuno bod yn rhan ohono.

Mae gennym y cyfle gorau am 50 mlynedd i symud ymlaen ar ddiarfogi. Rhaid manteisio arno. Dylai pob AS fod wedi derbyn copi o'n glasbrint. Ysgrifennwch at eich AS yn awr yn gofyn iddynt ysTŷried y ddogfen a chefnogi ein ymgyrch am waharddiad byd-eang ar arfau niwclear.

*Janet Bloomfield, Cadeirydd, CND Prydain*




## Byd di-niwclear neu arfau niwclear i bawb

### Rali CND yn Llundain 29 Hydref

**Mae Hydref 29 yn addo bod y digwyddiad CND mwyaf ers blynyddoedd ond i wneud yn siwr – rydym eich angen chi. Mae'n neges wleidyddol yn glir. 1995 yw'r amser am waharddiad byd-eang ar arfau niwclear. Yr unig ffordd i osgoi arfau niwclear i bawb yw cael gwared ag arfau niwclear unwaith ac am byth.**

**Rydym wrthi'n brysur ar ein deunydd cyhoeddusrwydd, ceisio cefnogaeth gan fudiadau eraill, ysgrifennu erthyglau, cael siaradwyr ac adeloniant. Hyd yn hyn mae'r siaradwyr yn cynnwys Tony Benn, Simon Hughes, Janet Bloomfield, Bruce Kent, Adi Roche. Cerddoriaeth ayb gan y Levellers a Freshblood. Gobeithiwn gynnwys siaradydd o Dde'r Affrig a'r De. Gobeithir dechrau'r orymdaith am 12.00 ganol-dydd, yn dibynnu ar yr heddlu, gyda rali i ddilyn yn Sgwâr Trafalgar am 1.00 pm.**

**Diolch i bawb a gyfrannodd at gronfa'r Rali. Hyd yn hyn cafwyd cyfraniadau neu addewidion am fwy na £3,000. Gyda chyfraniadau o gyllidebau ymyrch presennol, rydym wedi codi mwy na £6,000. Tra bydd hyn yn sicrhau diwrnod llwyddiannus rydyn yn dal i fod angen mwy yn ystod mis Awst i gyflwyno'n weledigaeth mor glir ag sydd modd.**

**Archebwch daflenni a phosteri i'w dosbarthu'n lleol. Mae'r taflenni'n rhad ac am ddim! Mae CND angen i hwn fod yn ddiwrnod mawr ... wela'i chi yno.**

*Malcolm Reid, Gweithiwr Ymgyrch CND Prydain.*

- *Mae copiau o 'Glasbrint am Fyd heb Arfau Niwclear' (Blueprint for a Nuclear Weapons Free World' a deunydd y Rali ar gael gan CND, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ. Ffôn: 071 700 2393.*

## CYSYLLTIADAU

**CND CYMRU**
**Ysgrifennydd Cyffredinol, Jill Stallard**, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfry, Dyfed SA20 0LR (05505) 260

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynnig cymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd agosaf:**

**GOGLEDD CYMRU**
**Dave Andrews** (0978) 310491

**DE CYMRU**
**Ray Davies** (0222) 889514

**CANOLBARTH CYMRU**
**Olwen Davies** (0970) 611994
**Ian Campbell** (0970) 871360
**Rod Stallard** (05505) 260

**ADDYSG HEDDWCH**
**Mary Jones** (0792) 774687

**MASNACHU**
**Jan Henderson** (0970) 830330

## Heddwch

- Cyhoeddir rhifyn nesaf Heddwch ym mis Hydref 1994
- Anfonwch gyfraniadau at Mary Jones, 9 Idris Terrace, Abertawe SA6 8LT. Ffôn: 0792 774687.
- Croeso i gyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysylltwch â Jill neu Mike Southern (0222) 222782 am fanylion.
- Dyddiad olaf derbyn copi yw 17eg Medi 1994.
- Croeso mawr i bob cymorth gyda golygyddol.

## Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

Enw ______________________

Cyfeiriad ______________________

______________________ Côd Post ________

Ffôn ______________________ Amgaeaf siec/GP am ______

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Aelodaeth, 3 Millbrook Court, Magor, Gwent NP6 3JN.



## PILI PALA

Mae Asiantaeth Niwclear Siapan yn hyrwyddo ei nwyddau gyda chymeriad cartwn fideo o'r enw Mr Pluto. Mae fel plenTŷn, gyda esgidiau coch del a helmet werdd yn dweud Pu – symbol cemegol plwtoniwm. Mewn un olygfa o fideo yn hyrwyddo pŵer niwclear, mae Mr Pluto yn ysgwyd llaw plenTŷn hapus sydd wrthi'n yfed llond mwg o soda sy'n llawn plwtoniwm. Mae'r llais ar y fideo yn dweud pe yfid y plwtnoiwm y byddai'n pasio drwy'r corff heb wneud niwed.

— • —

Plwtoniwm yw'r deunydd mwyaf gwenwynig y gwyddys amdano oherwydd y caiff ei amsugno gan fêr yr esgyrn. Gall mewn-anadlu .0001 gram ohono achosi cancr yr ysgyfaint.

— • —

Mae Mr Pluto hefyd wedi cael gair gyda Trydan Niwclear a awgrymodd yn ddiweddar y gellid defnyddio Llyn Trawsfynydd fel cyfleuster hamdden ar gyfer nofio, hwylio neu syrffio gwynt. Yn yr un Adroddiad maent yn rhybuddio y gallai gosTŷngiad parhaol yn lefel y llyn olygu sychu'r gwaddodion ar ymyl y llyn gan arwain at bosibilrwydd llwch halogedig. Peidiwch â phoeni – maent hefyd yn dweud wrthym y byddai unrhyw belydredd o'r fath fewn-anadlu o fewn terfynau derbyniol
Dewch i mewn – mae'r dŵr yn braf!

— • —

Mae Byddin Prydain yn anfon deunyddiau dysgu rhad ac am ddim i ysgolion. Mae cyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu torri ac mae gweithgareddau codi arian mewn ysgolion yn anhygoel o brysur. Sut mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gallu gwario cannoedd o filoedd o arian y trethdalwyr i gynhyrchu adnoddau addysgiadol?

— • —

Dywedodd cyfaill PPU wrth Pili Pala bod menywod wedi ymweld â siopau teganau yn Efrog Newydd a ffeirio bocsus llais doliau 'Barbie' a 'GI Jones'. Clywodd merched bach eu anrhegion newydd yn gweiddi 'Dim dianc i'r euog. Dyw dynion marw ddim yn siarad. Fi biau'r dial'. Roedd darpar filwyr bychain yn llyncu poer wrth glywed eu harwyr yn dweud 'Beth am gynllunio ein priodas'.

— • —


## Y Siop Heddwch




56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.
Ffon: 01222 489260

Gennym ni mae'r stoc fwyaf yng Nghymru o nwyddau o –

Traidcraft, Amnesty Rhyngwladol, Gwrth-Apartheid, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear, CND, Earthcare, Unicef.
Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.


# Y Mesur Anghyfiawnder Troseddol




Mae'r Mesur newydd hwn, sydd i dderbyn Caniatâd y Frenhines a'i weithredu cyn hir, yn cynnwys mesurau a fydd yn gwneud troseddau o weithgareddau a ysTŷriwyd gynt yn dramgwyddau suful, rhoi pwerau newydd ysgubol i'r heddlu a chynyddu'r posiblrwydd o gamweinyddu difrifol mewn cyfiawnder. Bydd y Mesur yn amharu ar hawliau dynol sylfaenol a ddiffiniwyd gan gyfraith hawliau dynol rhyngwladol, yn cynnwys rhyddid symudiad, rhyddid cymdeithasu a rhyddid ymgynnull yn heddychlon, yr hawl i achos teg a'r hawl i'ch rhagdybio'n ddieuog, yr hawl i breifatrwydd a'r hawl i ffurfio teulu.

Caiff dwy drosedd newydd ei chreu a fydd yn effeithio ar brotestwyr heddychlon.

Bydd 'tresbas waethygedig' yn golygu y bydd unrhyw un sy'n amharu ar weithgaredd cyfreithiol, tra'n protestio, yn cael ei arestio heb warant. Ni fedrwn mwyach brotestio os ydym i amharu ar siopa, confois niwclear, adeiladu ffyrdd, hela llwynogod neu unrhyw weithgareddau cyfreithiol eraill. Bydd hefyd yn drosedd i anufuddhau i orchmynion unrhyw swyddog o'r heddlu sydd wedi'ch gorchymyn i symud.

Mae 'cynulliadau tresbasol' yn rhoi pŵer i'r heddlu sicrhau gorchymyn yn rhwystro cynulliadau a gynhelir ar dir heb ganiatâd y perchennog a all olygu ámhariad difrifol i fywyd cymuned'. Felly os ydych eisiau chwifio baner ar dir rhywun arall, neu hyd yn oed yn Sgwâr Trafalgar, protestio am Tridant, cau ysgol neu gyflwr cyflogaeth medrwch fod yn cyflawni trosedd sy'n cario uchafswm o 3 mis o garchar a/neu ddirwy. Yn ychwanegol, nid oes ond raid i swyddog yr heddlu ámau'n rhesymol' y bwriadwch wneud hynny i chi gyflawni trosedd.

Bydd y Mesur yn Tŷnnu ymaith ein hawl traddodiadol i ddistawrwydd pan y'n harestir, felly os y gwrthodwn ateb cwestiynau pan gawn ein harestio, caiff hynny ei gymryd fel arwydd o euogrwydd. Bydd ymesTŷniad helaeth ym mhwerau atal a chwilio yr heddlu, fel na fydd yn rhaid i'r heddlu amau'r person y maent yn eu atal, a bydd yn drosedd gwrthod cydweithredu gyda'r fath archwiliad.


Caiff dwy drosedd arall newydd eu creu: 'meddiannu gwybodaeth sy'n debyg o fod o ddefnydd i derfysgwr' a 'meddiannu eitemau a ellid eu defnyddio gan derfysgwr'. Medrai'r rhain fod yn nwyddau bob dydd neu yn ddim ond enw a chyfeiriad unigolyn blaenllaw. Bydd i fyny i'r rhai a gyhuddir i brofi i'r llysoedd na fedrent gael eu defnyddio gan derfysgwyr.

Ynghyd â llu o droseddau newydd bydd y Mesur Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus hefyd yn rhoi hawl i landlordiaid gael gwared â sgwatwyr gyda dim ond 24 awr o rybudd; defnyddio trais i sicrhau mynediad 'os oes angen'; gwneud gwyliau, parton rhad ac am ddim a rêfs didrwydded yn droseddau; ailgyfeirio unrhyw un o fewn cylch o 5 milltir; atafaelu offer ac arestio unrhyw un y credir ei fod yn paratoi am, aros am neu fynychu 'ymgasgliad anghyfreithlon'; ac arestio teithwyr ar dir preifat. Gall yr heddlu hefyd atafaelu a dinistrio cerbydau ac eiddo a chodi tâl am y 'gwasanaeth'!

Mae'r Mesur yn fygythiad difrifol i hawliau pawb sy'n byw ym Mhrydain ac mae'n rhaid i ni ei wrthwynebu os ydym yn gwerthfawrogi ein democratiaeth. ysgtifennwch yn awr at ASau, ASEau, Arglwyddi a'r Wasg.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â
Advance Party – 081 959 7525
Freedom Network – 071 738 6721
Liberty 071 403 3888

*Howard Johns*



**Mae hanes y diwydiant niwclear yn llawn eironi. Adeiladwyd y bom atomig gyntaf i rwystro un wlad rhag tra-arglwyddiaethu – ond eto cyn i Hitler gael ei orchfygu, gwyddid nad oedd gan yr Almaen fom atomig a bod yr ofn yn ddisail. Yn eironig, yna gollyngodd yr UDA ei bomiau atomig ar Siapan ddi-niwclear a dod y grym mwyaf yn y byd oherwydd ei monopoli ar y bom atomig.**

**Dywedwyd bod yr atomfa 'fasnachol' gyntaf, yn Calder Hall, yn dystiolaeth y gellid harnesu ynni niwclear ar gyfer heddwch – ond fe'i hariannwyd i gynhyrchu plwtoniwm ar gyfer arfau niwclear. Yn eironig, mae gan Brydain yn awr yr holl blwtoniwm y mae ei angen ac nid oes defnydd masnachol i'r diwydiant niwclear.**

**Mae'r ddadl ar ddadgomisiynu wedi adlewyrchu hynt y diwydiant niwclear. Dros bedwar degawd, mae'r lobau o blaid ac yn erbyn wedi newid ochr sawl gwaith – yr unig nodwedd gyffredin yw eu gwrthwynebiad i'w gilydd. Mae'n werth bwrw peth o'r cefndir hwn i gof.**

*John Cox, Is-Lywydd CND Prydain*

## Hanes

Yn ôl yn y 1950au a dechrau'r 1960au, ychydig o bobl a feddylai am bŵer niwcliar fel problem. Yr adeg hynny y perygl mawr oedd profion arfau niwcliar a oedd, bob blwyddyn, yn gollwng Strontiwm-90 i'r atmosffer ac achosi cancr yr esgyrn a chlefydau eraill cysylltiedig. Ychydig yn awr sydd yn dadlau nas achosodd y ffrwydriadau profion niwclear farwolaethau miloedd o blant ym mhob rhan o'r byd.

Yn ystod y cyfnod hwn, canolai gwrthwynebiad i bŵer niwcliar (yr hyn a elwid yn 'ddefnydd heddychlon' ynni niwclear) ar ei swyddogaeth yn cyflenwi plwtoniwm i arfau niwclear – ni chai ei weld yn berygl ynddo'i hun. Dim ond ar ôl 1965, pan rwystrwyd profion arfau niwcliar yn yr atmosffer gan y Cytuniad ar Waharddiad Rhannol o Brofion, y dechreuwyd edrych yn feirniadol ar bwer niwcliar.

Erbyn dechrau'r 1970au, roedd y lobi gwrth-niwclear wedi ei rhannu mewn pwyslais rhwng y rhai oedd yn canolbwyntio ar arfau niwcliar a'r rhai a symbylwyd i ddechrau gan bryderon amgylcheddol. Fel y daeth y cyhoedd yn fwy ymwybodol o beryglon gweithredol gorsafoedd pŵer niwcliar, prif neges yr ymgyrch bryd hynny oedd eu cau ar unwaith.


I geisio gwrthbrofi ein hachos, yna amlygodd y lobi niwclear beryglon a chostau cau (os y diswyddid gweithwyr a chau'r gwaith dros dro) – tra tueddem ni i fychanu'r problemau. Yn ystod y cyfnod byr hwnnw roedd ganddynt hwy agwedd fwy realistaidd na ni!

## Ehangu

Yn ystod y 1970au, mynegodd y diwydiant fwy o hyder y gellid datrys problemau dadgomisiynu – tra dadleuai rhai lleisiau yn y lobi gwrth-niwcliar y dylid gadael y gorsafoedd pŵer niwclear yn sefyll am ddegawdau. Mewn gwirionedd, efallai bod gan y ddau safbwynt fwy i'w wneud gyda ymddangosiadau mewn Ymchwiliadau Cyhoeddus na realiti technolegol.

Wrth edrych yn ôl, bu'r bygythiad o weithiau pŵer niwcliar gwag yn hagru'r arfordir yn ddadl effeithiol iawn a chynorthwyodd i newid y farn gyhoeddus yn erbyn pŵer niwclear. Yn ystod y 1980au bu'r diwydiant yn chwilio yn enbyd am gloddfannau i wastraff niwcliar, er mwyn lleddfu'r pryder cyhoeddus na chai problem dadgomisiynu ei datrys.

Bryd hynny roedd gan y diwydiant niwclear achos da i fod yn hyderus am ei ddyfodol masnachol a disgwyliai dalu cost llawn dadgomisiynu. Ond erbyn canol y 1980au roedd y rheolau wedi eu newid a dyfodol y diwydiant yn llai sicr.



# DADGOMISIYNU

## Rheolau newydd

Roedd sawl ffactor yn gyfrifol

a) Gyda darganfod y 'gaeaf niwcliear', daeth yn amlwg y medrai Prydain (ar ei phen ei hun) ddinistrio pob bywyd ar y ddaear. Unwaith y deallwyd y cysyniad hwn, nid oedd gan y lluoedd milwrol unrhyw ddefnydd i gyflenwadau pellach o blwtoniwm.

b) Gyda methiant masnachol y rhaglen adweithydd 'cyflym', daeth yn amlwg nad oedd ychwaith unrhyw ddefnydd sifil i blwtoniwm – roedd wedi dod yn wastraff radioactif costus yn hytrach na 'is-gynnyrch' gwerthfawr.

c) Roedd rheolau amgylcheddol yn gwneud pŵer niwcliar yn ddrutach nag o'r blaen a bu cynnydd enfawr yng nghostau gwaredu â gwastraff niwcliar. Ymhellach, heb unrhyw brynwyr masnachol neu ddiwydiannol i'r plwtoniwm, dechreuodd maint y gwastraff niwcliear gynyddu'n ddramatig.

ch) Dechreuodd llywodraeth Thatcher ar raglen o werthu asedau cenedlaethol, a deallwyd, efallai am y tro cyntaf, fod y diwydiant niwclear yn drychineb masnachol.

Yn ddamcaniaethol, dylai'r llywodraeth wedi rhoi'r diwydiant niwclear o'r neilltu fel achos anobeithiol (yn hytrach na'r diwydiant glo) ond, yn wleidyddol, byddai hyn wedi bod yn bris rhy fawr i'w dalu. Ymhellach, byddai wedi gadael problem dadgomisiynu yn dal heb ei datrys.

## Dadgomisiynu

Mae dadgomisiynu yn fater technolegol a masnachol. Os byddai'r galw am blwtoniwm gradd arfau wedi parhau, byddai symiau enfawr o arian cyhoeddus wedi bod ar gael a byddai'r drafodaeth wedi dod i ben erbyn hyn.

Mae realiti heddiw yn dra gwahanol. Pa bynnag blaid wleidyddol sydd mewn grym, bydd dadgomisiynu yn swcr cosmetaidd cost isel. Rhaid asesu'r tri 'datrysiad' a gynigir yn awr gan Trydan Niwcliar yn erbyn realiti'r sefyllfa fasnachol hon.



## Yr opsiynau

Ar gyfer Trawsfynydd, ar ôl dad-danwyddo a dymchwel yr adeiladau nad ydynt yn radioactif erbyn 1997 (amcangyfrif cost £55 miliwn), mae Trydan Niwclear yn cynnig y dewis hwn:

1) Clirio'r Holl Safle dros 16 mlynedd, yn costio oddeutu £500 miliwn. Yn yr achos hwn, symudid deunydd radioactif gan robotau a'u cludo ar hyd ffyrdd i Sellafield (neu rhyw waith arall).
2) Clirio Gohiriedig ar y Safle yn costio £55 miliwn erbyn y flwyddyn 2001 – i'w ddilyn gan gwblhau llwyr 130 mlynedd yn ddiweddarach am gost bellach o £25 miliwn (ar brisiau heddiw!). Byddai hyn yn gadael cragen yn hagru'r tirwedd am dros ganrif a gadael y bil i'n gor-gor-gor-gor-gor-wyrion i'w dalu.
3) Twmpathu ar y safle yn costio tua £95 miliwn os y'i cwblheir erbyn 2017. Heb amheuaeth, dyma'r dewis a ffefrir gan Trydan Niwclear – Opsiwn 1 yn rhy ddrud ac Opsiwn 2 yn rhy hurt i'w ysTŷried o ddifrif. Byddai hyn yn gadael twmpath gwneud dros adeiladau'r adweithydd am gyfnod amhenodol.

**Tra medrem ni wrthwynebu Opsiwn 3 oherwydd mai hyn yw dewis Trydan Niwclear, ni fedrir cefnogi'r un o'r cynlluniau arall. Gall fod yn ddoeth derbyn y twmpathu fel cofgolofn addas i ffolineb ein cenhedlaeth wrth ganiat u i'r diwydiant niwclear fodoli o gwbl.**

# Tanwydd niwcliear iraddiedig – lle mae? Sut yr aeth yno?

*Dave Andrews, Is-Gadeirydd CND Cymru*

Bob blwyddyn mae tua 650 o deithiau rheilffyrdd o fflasgiau'n cynnwys rhodiau tanwydd niwcliar disbyddedig radioactif iawn rhwng gorsafoedd pŵer niwclear ym Mhrydain a gwaith ailbrosesu BNFL yn Sellafield. Mae'r fflasgiau'n pasio drwy rai o'r dinasoedd a'r trefi mwyaf ym Mhrydain – Caeredin, Birmingham, Bryste, Crewe, Ipswich, Caerhirfryn, Llundain, Rugby a Watford i enwi dim ond rhai.

Yng Nghymru mae fflasgiau'n teithio'n rheolaidd o'r Wylfa drwy Fangor i Gyffordd Llandudno lle mae fflasgiau o Drawsfynydd yn ymuno â hwy, cyn dilyn llwybr rheilffordd yr arfordir drwy'r Rhyl i Gaer ac yna ymlaen i Sellafield. Mae Trydan Niwclear yn y broses o dynnu 50,000 o rodiau tanwydd o'r adweithyddion sydd wedi cau yn Nhrawsfynydd. Bwriadant symud yr holl rodiau i Sellafield mewn dwy flynedd. Ar hyn o bryd caiff 3 neu 4 fflasg yr wythnos eu symud.

Daw tanwydd disybyddedig i Sellafield o dramor hefyd. Daw rhai ar longau drwy Barrow-in-Furness ac eraill ar y rheilffordd drwy Dover, Llundain a phrif reilffordd yr Arfordir Gorllewin. Pan fydd THORP yn gweithredu'n llawn deuir â rhyw 50 fflasg y flwyddyn o Ewrop i Dover. O Siapan mae'r teithiau ar long ac yn 1992/93 cludodd BNFL 475 tunnell o danwydd disbyddedig o adweithion Siapan i'r 'biniau sbwriel niwclear' yn Sellafield a La Hague (Ffrainc).

Mae perygl o ddamwain ddifrifol bob amser wrth gludo'r fflasgiau – mae ymchwil annibynnol yn awgrymu y gellid gwasgaru pelydredd am hyd at 25 mlynedd. Nid oes cynlluniau brys priodol ar gyfer y fath ddamwain ac nid oes anghenrhaid cyfreithiol hysbysu'r Gwasanaethau Brys nag Awdurdodau Lleol am symud fflasgiau.

Mae'r fflasgiau hefyd yn rhoi pelydredd gradd isel gan roi perygl iechyd i weithwyr rheilffordd a phobl yn byw'n ymyl y rheilffyrdd. Nid oes mesur 'diogel' o belyderedd.

Mae ailbrosesu tanwydd disbyddedig yn creu hyd at 160 gwaith mwy o ddeunydd radioactif yn ôl cyfaint nag oedd yno yn y lle cyntaf. Mae'n rhaid wedyn trin y deunydd hwn; nid oes cynlluniau pendant beth i'w wneud gyda'r gwastraff hyn hyd yma.

Mae ailbrosesu yn ddiangenrhaid ac ni ellir ei gyfiawnhau'n economaidd. Fodd bynnag, y mae'n ei gwneud yn bosibl i adfer plwtoniwm. Pan fydd THORP yn gweithredu'n llawn bydd yn adfer 5½ tunnell o blwtoniwm y flwyddyn, dwy ran o dair ohono ar gyfer cwsmeriaid tramor. Gellir defnyddio pob plwtoniwm ar gyfer arfau – felly mae THORP yn cyflwyno peryglon sylweddol i amlhau arfau niwcliar.



# Gwyl Heddwch Rhyngwladol Manceinion

## Mehefin 25 – Gorffennaf 3 1994

*Olwen Davies*
*Is-Gadeirydd CND Cymru ac aelod o Bwyllgor Rhyngwladol CND*

Ymysg nifer fawr o gyfarfodydd diddorol y bum ynddynt roedd un gan Rae McGrath o'r Grwp Ymgynghori ar Ffrwydron, a roddodd sgwrs gyda sleidiau am yr ymgyrch i wneud yr arfau dinistriol hyn yn anghyfreithlon. Rwyf yn sicr y bydd pawb a fu yn y cyfarfod yn ceisio cefnogi'r ymgyrch.

Cyflwynodd Adi Roche, Ysgrifennydd CND Iwerddon, y rhaglen ddogfen ardderchog 'Black Wind, White Land' sy'n ymwneud ag effeithiau ofnadwy damwain Chernobyl ar bobl a'r tir. Mae'n diolch yn fawr i Adi a CND Iwerddon am y fenter hon, a'u prosiect syn dod â phlant o'r ardal i Iwerddon am wyliau adferol. Dylai pawb weld y ffilm. Fe'i dangoswyd ar y teledu yn Iwerddon ond hyd yn hyn mae cwmnïau ym Mhrydain wedi'i gwrthod. Gobeithiaf y bydd CND Cymru'r yn cael y fideo fel y gellir ei dangos mor eang ag sy'n bosibl yng Nghymru.

Edmygodd 'Etienne', ymgyrchydd o'r Môr Tawel y faner hyfryd am Fôr Tawel Di-Niwclear a ddangoswyd yn y Neuadd Fawr – a wnaed gan Thalia Campbell a Jo, myfyrwraig gelf. Gofynnodd os y cai fynd â'r faner yn ôl gydag ef. Cysylltwyd â Thalia a rhoddodd ei chaniatâd. Yna lapiodd ei hun ynddi (traddodiad yn ôl pob sôn!m) a rhoddais gyfarchion iddo o Gymru.

Siaradodd Frank Alaun, sydd bellach yn 81 mlwydd oed ac yn dal yn weithiwr diflino dros heddwch, yn y cyfarfod Pensiynwyr dros Heddwch gan roi cymaint o ysbrydoliaeth ag erioed a diweddu drwy ddyfynnu linellau olaf cerdd gan Siegfried Sassoon a fu'n gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Fe'i hysgrifenwyd i gydymaith ifanc a laddodd ei hun –

*'He put a bullet through his brain*
*And no one spoke of him again*
*You smug faced crowds with kindling eye*
*Who cheer when soldiers lads go by*
*Creep home and hope you'll never knw*
*The hell where youth and laughter go'.*

Rhywbeth i feddwl amdano o ddifri! Hefyd siaradodd Catherina Barnes, sy'n cynnal ymgyrch un-fenyw barhaol yn Sellafield, yn yr un cyfarfod ac roedd canu hyfryd gan Maria Tolly a George Stratton.

Cafwyd nifer o areithiau a cherddoriaeth i ysbrydoli pawb yn y Rali Ddi-Niwclear dan gadeiryddiaeth Bruce Kent yn Neuadd Fawr, Neuadd Tref Manceinion. Yna noswaith Dawns a Cherddoriaeth Fyd-eang. Roedd pawb wrth eu boddau gyda Côr Cochion Caerdydd. Roedd cerddoriaeth hyfryd o Nepal a Mecsico, cân Wyddelig gan Adi Roche, grwp bendigedig yn canu caneuon heddwch o Bengal a drwm tariad calon Corbrin Hanney, arweinydd ysbrydol pobl y Shoshone. Cafodd ei ddrwmio a chaneuon am y ddaear a'r haul effaith rymus arnom i gyd.

Yn olaf rhaid llongyfarch Jan Henderson a Brian Jones am ddod â stondin masnachu CND Cymru ar ddydd Sadwrn. Roedd yn wyl lwyddiannus iawn ac mae cynlluniau eisoes i gynnal un arall – cyn gynted â'r flwyddyn nesaf efallai.



# Y Llinell Flaen neu'r Trysorlys Sydd Gyntaf

the **nuclear eyes**
Parliamentary Lobbying Network

**Lansiwyd yr Astudiaeth Costau Amddiffyn 'Front Line First' ar 1 Rhagfyr 1993 'i ganfod ffyrdd o ostwng costau cynnal ein lluoedd llinell flaen o 1996/97 ymlaen, heb ostwng eu gallu milwrol'. Bwriedir i'r astudiaeth uniaethu meysydd gweinyddiaeth a gwasanaethau cynnal lle gellir gwneud arbedion a bydd yn edrych yn fanwl ar 33 maes o wariant amddiffyn yn cynnwys pencadlys y Weinyddiaeth Amddiffyn, strwythuro a staffio pob un o'r tri gwasanaeth a seilwaith y llynges.**

**Disgwylir cyhoeddiad ar ganlyniadau 'Front Line First' yn ystod yr wythnosau nesaf.**

**Yn ddiweddar bu sibrydion o Whitehall y bydd 'Front Line First' yn golygu gosTŷngiad o #750 miliwn y flwyddyn o 1996/97 ymlaen, yn golygu colli 21,000-22,000 swydd gyda'r Awyrlu yn dioddef waethaf. (Effeithiwyd llai ar yr Awyrlu na gwasanaethau eraill yn yr Astudiaeth Amddiffyn 'Options for Change' yn 1990). Hefyd bygythir cau safle'r llynges yn Rosyth (gyda cholli tua 8,000 swydd yn yr Alban). Caiff Rifkind ei alw i ymddangos gerbron y Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn yn ystod y gwyliau'r haf seneddol i ateb cwestiynau am y toriadau. Disgwylir y drafodaeth nesaf yn Nhŷ'r Cyffredin am yr Amcangyfrifon Amddiffyn yn yr hydref.**

**Clywyd hefyd bod Rifkind wedi bwriadu lleddu'r boen drwy gyhoeddi arbedion o #1 biliwn a fedrid eu rhoi yn ôl i amddiffynfeydd llinell flaen ac offer. Ond gyda thrafodaethau'r Hydref ar wariant ar fin dechrau, dywedir bod Michael Portillo yn dadlau am roi'r arian yn ôl i goffrau'r Trysorlys.**

**'Front Line First' yw'r diweddaraf o linell hir o doriadau i wariant amddiffyn yn y Deyrnas Gyfunol a osTŷngodd yn gyson o uchafbwynt o 5.3% o'r Gynnyrch Cenedlaethol Gros yn 1985 i 2.9% o'r Cynnyrch yn 1996/97. Mae gwariant ar amddifyn yn gostwng drwy Ewrop ond mae Prydain yn dal i fod ymysg y rhai sy'n gwario mwyaf. Mae gwario uchel ar amddiffyn ym Mhrydain yn gysylltiedig â chadw statws a dylanwad Prydain mewn trefniadau diogelwch cyfunol (ee mae Prydain yn cymryd rhan flaenllaw yn Llu Ymateb Cyflym NATO). Fodd bynnag awgrymwyd fod gan wariant uchel ar amddiffyn effaith gwael ar yr economi. Erys y rhaglen Trident heb ei hamharu gan doriadau amddiffyn, er i'r Rhyfel Oer ddod i ben.**

**Mae'r bygythiad llawer is gan luoedd Sofiet/Rwsia wedi golygu gosTŷngiad mewn ymrwymiadau amddiffyn, er bod y Fyddin wedi cymryd llawer mwy o ymrwymiadau yng Ngogledd Iwerddon a Bosnia ac mae'r llynges yn dal i gadw presenoldeb sylweddol yn ynysoedd y Falklands.**

**Y broblem gyda'r cwtogiadau ar amddiffyn yw mai'r Trysorlys sy'n dangos y ffordd, yn hytrach nag ailasesiad o anghenion amddiffyn ar ôl y Rhyfel Oer. Nid oes gan Brydain chwaith unrhyw strategaeth ar gyfer trafod effeithiau cwtogiadau yn y diwydiant amddiffyn. Mae 'Front Line First' yn amlygu'r angen am adolygiad amddiffyn ac hefyd am i'r Llywodraeth fuddsoddi mewn trawsnewid neu ddargyfeirio'r diwydiant amddiffyn.**

*Nicola Butler*
*Gweithreg Ymgyrch CND Prydain*

- ***Am wybodaeth bellach am Rwydwaith Lobo Seneddol CND, nodiadau cefndir i ASau ac ati, ysgrifennwch at Adran Seneddol CND, 162 Holloway Rd., Llundain N7 8DQ. Ffôn 071 607 5013.***

